| CYFARFOD | Y CYNGOR |
|---|---|
| DYDDIAD | 21, IONAWR, 2010 |
| PWNC | RHYBUDD O GYNNIG Y CYNGHORYDD ALWYN GRUFFYDD. |
| PWRPAS | CYFLWYNO GWYBODAETH GEFNDIR. |
| AWDUR | DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL. |

1. Mae rhybudd o gynnig gerbron y Cyngor yn ymwneud â rôl y Pwyllgor Cynllunio Canolog. Pwrpas yr adroddiad yma ydi cyflwyno ychydig o wybodaeth gefndirol ar effaith y cynnig ar Gyfansoddiad y Cyngor.

2. Mae'r Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau sydd yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn nodi y cyfrifoldebau a ganlyn ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio Canolog:-

   **"Y PWYLLGOR CYNLLUNIO CANOLOG**
   Cyflawni'r swyddogaethau canlynol:-

   (i) penderfynu, ar ran y Cyngor, ar unrhyw geisiadau cynllunio a ystyrir yn faterion sirol gan bod effaith y cais yn ymestyn dros ffiniau mwy nag un o ardaloedd y Cyngor;
   (ii) dyfarnu ar unrhyw benderfyniadau gan y pwyllgorau ardal, na chaiff y Bwrdd ymdrin â hwy, sydd naill a'i wedi eu galw i mewn gan swyddog o dan Reol Gweithdrefn 17 y Cyngor neu wedi eu cyfeirio i fyny gan y nifer priodol o aelodau o dan Reol Gweithdrefn 21 y Cyngor."

3. Effaith mabwysiadu'r cynnig fyddai i ddiddymu Cymal (ii) o'r Swyddogaethau uchod ac o bosib diwygio rhywfaint ar Gymal (i) i ychwanegu disgrifiad o faterion sirol.

4. Mae'r cynnig hefyd yn rhagweld y bydd y Pwyllgorau Cynllunio Ardal yn atebol yn uniongyrchol i'r Cyngor llawn. Golygai hyn y byddai materion cynllunio a gyfeirir i fyny gan aelodau neu a elwir i mewn gan swyddog yn cael eu cyfeirio i'r Cyngor llawn i'w trafod a'u penderfynu.

5. Er gwybodaeth nodir isod nifer y ceisiadau a gyfeiriwyd i'r Pwyllgor Canol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.

| 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 |
|---|---|---|---|---|
| 15 | 7 | 7 | 13 | 6 |

6. O fabwysiadu'r cynnig byddai angen gwneud diwygiadau canlyniadol i Reol Gweithdrefn 17 (Pwyllgorau Ardal), Rheol Gweithdrefn 21 (Cyfeirio Penderfyniadau'n Uwch) ac i rannau 9 (Penderfyniadau gan y Pwyllgor Cynllunio sy'n groes i Argymhelliad Swyddogion ) a 10 (Rôl y Pwyllgor Cynllunio Canolog) o'r Côd Ymarfer Cynllunio.